# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 MEHEFIN 2009** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL – DEFNYDD O ISGONTRACTWYR, UNED DARPARU PRIFFYRDD** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **YSTYRIED CRYNHOAD O'R ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL, AR GAIS Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiadau archwiliad mewnol a ryddhawyd yn ystod y cyfnod o'r 1af Mawrth 2009 hyd at 31ain Mai 2009, mae Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cais i swyddogion o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol fynychu'r cyfarfod er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd yn codi o'r adroddiad archwiliad "Defnydd O Isgontractwyr, Uned Darparu Priffyrdd".

1.2 Mae crynhoad o'r adroddiad archwiliad mewnol wedi ei cynnwys yn yr atodiad.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn crynhoad yr adroddiad archwiliad mewnol, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisioes wedi'u cyflwyno i reolwyr yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er gweithrediad.

## DEFNYDD O ISGONTRACTWYR, UNED DARPARU PRIFFYRDD
### Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr Uned Darparu Priffyrdd yn penodi isgontractwyr yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyngor Gwynedd ac ymarfer da.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd asesu'r drefn o ddefnyddio isgontractwyr gan yr Uned Darparu Priffyrdd gan adolygu'r ffeiliau perthnasol i sicrhau bod tystiolaeth yn bodoli er mwyn gallu arddangos bod y gwaith wedi ei osod yn unol â'r Rheoliadau.

Prif Ddarganfyddiadau

Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd nad oedd trefniadau mewn lle gan yr Uned Darparu Priffyrdd i ddethol isgontractwyr yn unol ag ymarfer da'r diwydiant adeiladwaith na Rheolau Gweithdrefn Contractau Cyngor Gwynedd.

Gwelwyd bod yr Uned Darparu Priffyrdd yn ceisio am waith hyd yn oed os nad oedd ganddynt y capasiti i gwblhau'r gwaith gyda'r gweithlu mewnol ac yna rhoi'r gwaith i isgontractwyr. Nid yw hyn yn anarferol yn y diwydiant gan fod cwmnïau 'mawr' sy'n ennill tendr yn aml yn is-gontractio'r gwaith i gwmnïau lleol. Fodd bynnag, gwelwyd fod gwendidau arwyddocaol yn y trefniadau i gosod y gwaith yma i isgontractwyr preifat.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau'r Uned Darparu Priffyrdd wrth ddefnyddio isgontractwyr. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Darparu Priffyrdd unai sefydlu rhestr gymeradwy o gontractwyr yn fewnol neu fabwysiadu Constructionline yn ffurfiol fel y rhestr gymeradwy.**
- **Dylid cydymffurfio gyda Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor wrth osod gwaith i isgontractwyr.**